

# Llenyddiaeth Cymru

## Yr Achos dros Rym Llenyddiaeth

Ysbrydoli  
cymunedau

Datblygu  
awduron

Dathlu diwylliant  
llynyddol Cymru



# Creu Gobaith i'r Dyfodol – yr Achos dros Rym Llenyddiaeth

Adroddiad Canol Tymor ein Cynllun Strategol 2019-2022

Rydyn ni'n grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Mae ein prosiectau'n ceisio gwneud gwir wahaniaeth, a thrwy eiriau rydyn ni'n helpu i lywio cymdeithas, economi a diwylliant Cymru.

Blwyddyn heriol, llawn newid, fu 2020. O'r llyfrau, y comics a'r addasiadau i'r sgrin a gawsom i'w mwynhau yn ystod y cyfnod clo, i ddefnyddio ysgrifennu creadigol i'n helpu i ymdopi â'n pryderon wrth orfod ynysu'n gymdeithasol, fu hi erioed mor bwysig cefnogi, rhannu a defnyddio llenyddiaeth i wella bywydau a chreu gobaith i'r dyfodol.

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi ymateb i'r heriau hyn ac wedi gweddnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio, gan ganolbwyntio ar sut y gall llenyddiaeth wella bywydau pob un ohonon ni yn y Gymru fodern, fywiog rydyn ni'n rhan ohoni. Mae ein diwylliant llenyddol yn hwb aruthrol i'n lles. Mae'n rhoi llais i bobl nad ydyn nhw'n cael eu clywed ac yn ysbrydoli unigolion i fyfyrrio a'r genedl i sgwrsio.

Ond nid taith bersonol yn unig mo llenyddiaeth – mae'n dod â chymunedau ynghyd ac mae'n sbardun i'n heconomi greadigol. Mae awduron yn ganolog i amryw o ffurfiau gwahanol gan gynnwys ffilm, gemau a chyhoeddi, ac maent yn defnyddio'r ffurfiau hyn i fwrw goleuni ar ein byd. Mae diwylliant llenyddol Cymru yn rhoi cyfle economaidd grymus, unigryw inni. Fel Cwmni Cenedlaethol, mae ein rôl ni yn ganolog i ddatblygiad creadigol a phroffesiynol ein hawduron.

Rydyn ni hefyd wedi parhau i greu partneriaethau newydd er mwyn ein helpu i gyrraedd pob rhan o'n

gwlad a'r tu hwnt iddi, gan roi cyfleoedd newydd i ni dyfu fel pobl, awduron a chymdeithas, a hynny wedi'i seilio ar ddiwylliant a threftadaeth lenyddol unigryw. Gan weithio gydag ystod o sefydliadau, gan gynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Scottish Poetry Library, Cyngor Hil Cymru a Chwmnïau Cenedlaethol Cymru, ymhlith sawl sefydliad arall, rydyn ni wedi meithrin ein diwylliant yma yng Nghymru ac yn rhannu ein llais â'r byd.

Mae'r diweddariad sefydliadol hwn yn dangos ein cynnydd a ninnau hanner ffordd drwy Gynllun Strategol 2019-2022. Rydyn ni'n dangos sut mae Llenyddiaeth Cymru, er gwaethaf amgylchiadau anodd 2020, wedi helpu i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol, wedi datblygu lleisiau llenyddol mwy amrywiol, ac wedi creu cyfalaf diwylliannol ac economaidd inni i gyd.

**Dr Kate North**  
Cadair,  
Llenyddiaeth Cymru


**Lleucu Siencyn**  
Prif Weithredwr,  
Llenyddiaeth Cymru

"Rydym yn gweld sîn lenyddol fywiog yn datblygu yng Nghymru, a honno'n ennyn diddordeb pobl. Mae egin awduron ac awduron profiadol yn archwilio'n ddychmygus gyfuniad pwysig o bynciau a syniadau, gan dyrchu i ddiddordebau a heriau ein hoes..."

**Phil George**  
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

# Ein Blwyddyn mewn Ffigurau

Yn ystod 2019/2020, cynhyrchodd Llenyddiaeth Cymru:



## Mae hyn yn gyfanswm o £1.194m\*

Am bob £1 gaiff ei fuddsoddi yn Llenyddiaeth Cymru, mae £1.61 ychwanegol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer yr economi.

\*Ffigyrau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020




“Cymru yw’r unig genedl rwy’n ymwybodol ohoni sydd yn dathlu llenyddiaeth a cherddoriaeth yn ei hanthem genedlaethol, ac mae hynny wrth gwrs yn rhywbeth i’w ganmol.

Mae ‘gwlad beirdd a chantorion’ yn ddweud cryf, ond yn un gwbl deilwng. Mae’r gwaith sydd yn cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwn yn deyrnged i dreftadaeth aruthrol canrifoedd o ymgysylltu gydag iaith, llenyddiaeth a dychymyg. Mae’n deyrnged hefyd i waith diflino’r rheiny sydd wedi ymrwmo i gynnal, i dathlu ac yn bwysig iawn i ymestyn a datblygu llenyddiaeth ymhellach gyda chenedlaethau ifanc ac amrywiol o feirdd ac awduron.”

**Philip Pullman**

Noddwr Llenyddiaeth Cymru



**GWYDION YDW I –  
DEWIN A CHONSURIWR.  
PA DRICIAU HUD YR  
HOFFET TI EU GWELD?**

**RHYWBETH O EIRIAU. SGEN TI STORI?!**

**SWYN FELLY. YN GYNTAF, DANGOS  
I MI SUT MAE GEIRIAU YN CAEL EU  
DEFNYDDIO YN Y BYD RHYFEDD HWN.**

# Cyfranogi

Ysbrydoli ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol

Mae ysgrifennu creadigol yn adnodd pwysig wrth i bobl fyfyrto am eu sefyllfaoedd. Mae'n fodd i blant ac oedolion fynegi'u teimladau, ac yn eu grymuso i ddod o hyd i'w lleisiau a chyflwyno gwir newidiadau yn eu bywydau ac yn ein cymdeithas. Ar adeg mor ansicr, ac unigrwydd ac ynysu yn fygythiad hollbresennol i'n hiechyd meddwl, fu hi erioed mor bwysig defnyddio'r gallu hwnnw i hybu lles ein dinasyddion a'n cymunedau.

## Ein Strategaeth

Rydyn ni'n gwneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch i gyfranogwyr yng Nghymru, ac yn cynyddu'i effaith, oherwydd rydyn ni'n gwybod bod hyn:

- Yn gwella lles pobl ac yn eu helpu i beidio â theimlo mor ynysig
- Yn fodd o ymwneud ag unigolion a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli
- Yn creu cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu talentau creadigol

Rydyn ni wedi ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol drwy eu galluogi i gyfranogi mewn llenyddiaeth.

## Uchafbwyntiau 2019/2020

Cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru mai Eloise Williams fyddai'r gyntaf erioed i wneud swydd y **Children's Laureate Wales**, ac aeth ati i roi heriau ysgrifennu digidol wythnosol i blant ar ddechrau cyfnod clo COVID-19.

Lansiwyd ail rownd ein cynllun nawdd **Llên er Lles**, gyda phrosiectau'n cael eu harwain gan awduron yn cyrraedd rhai o'r bobl sydd ar y cyrion eithaf yng Nghymru, gan gynnwys carcharorion a ffoaduriaid.

Arweiniodd ein partneriaeth gyda **Chymdeithas Bêl-droed Cymru** at gerdd ffilm a gafodd ei chreu gan blant ysgol yng Nghasnewydd, ac at gydweithio ar Gystadleuaeth Barddoniaeth Ewro 2020 Cymru.

Drwy ein partneriaethau a'n gwaith cyfranogi, cyrhaeddwyd dros **80,000** o bobl eleni, gan gynnwys bron i **10,000** o blant a phobl ifanc. Mae ein gweithgareddau'n helpu i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol, yn enwedig iechyd a lles.

## Ffigurau o Bwys yn 2019/2020

Cymerodd **82,435** o bobl ran yn un o weithgareddau Llenyddiaeth Cymru

Bu **9,688** o blant a phobl ifanc yn ymwneud â'n gwaith

Cyfeiriwyd **518** o gyfranogwyr at ein cyfleoedd datblygu i awduron

Roedd **194** o'n sesiynau cyfranogol wedi'u hanelu'n benodol at blant a phobl ifanc

Cymerodd **11.5%** o oedolion yng Nghymru ran mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol

"Roedd y gweithdy ysgrifennu hwn yn gyfle mor wych ac yn ffordd mor unigryw i fynegi ein teimladau ni, fel pobl ifanc, am ein trafferthion ni a thrafferthion pobl eraill gydag iechyd meddwl. O'r dechrau i'r diwedd, roedd modd inni fod yn ni'n hunain, ac rydyn ni'n ddiolchgar ein bod ni wedi ac wedi cael llais."

**Unigolyn Ifanc**  
Gweithdy Ysgrifennu Creadigol  
"Be Brave"



# Datblygu Awduron

Datblygu potensial creadigol a phroffesiynol ein hawduron

O farddoniaeth, ffuglen a chyhoeddiadau print i sgrïptio, y cyfryngau newydd a'r nofel graffeg, rydyn ni wedi ceisio cyrraedd pobl sy'n ymwneud â phob ffurf, gan ymrwymo i fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb wrth i bobl feithrin gyrfaoedd llenyddol proffesiynol ar bob lefel. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys rhoi arweiniad a chyflwyno rhaglenni cymorth unigryw.

Lleisiau llenyddol hyderus yw sylfaen pob diwylliant llenyddol cryf. Trwy ein gwaith Datblygu Awduron rydym yn ceisio cyrraedd talent newydd ac amrywiol, gan gefnogi, annog a rhoi'r sgiliau i'r genhedlaeth nesaf o awduron er mwyn iddynt allu cyfrannu at ddiwydiannau creadigol Cymru. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i sicrhau bod cyfle i dalent newydd dyfu, dysgu a datblygu.

## Ein Strategaeth

Rydyn ni'n helpu awduron Cymru i fireinio ac amrywio eu sgiliau, oherwydd rydyn ni'n gwybod bod hyn:

- Yn rhoi cyfleoedd newydd i egin awduron
- Yn rhoi ystod o sgiliau i awduron ar gyfer gweithio mewn sectorau eraill
- Yn datblygu potensial llenyddol a sgiliau awduron ifanc yn sylweddol

Mae hyn yn datblygu potensial creadigol a phroffesiynol egin awduron, ac yn helpu i greu mwy o amrywiaeth yn niwydiannau creadigol Cymru.

## Uchafbwyntiau 2019/2020

Lansiwyd **Gwobr Rising Stars Cymru** mewn partneriaeth â Firefly Press, y cyhoeddwr annibynnol, i ganfod beirdd plant talentog o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Cafwyd 186 o geisiadau i'r **Cynllun Ysgoloriaethau a Mentora Awduron**, sef y nifer fwyaf erioed.

Agorodd **Bwthyn Encil Nant** ar ôl cael ei adnewyddu, a chyrraeddodd ei gapasiti llawn yn y tymor cyntaf.

Cynigiwyd nifer o gyfleoedd preswyl yng **Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**, gan gynnwys cydweithfeydd Y Stamp a Where I'm Coming From, a chwrs Ysgrifennu i Oedolion Ifanc yn Gymraeg mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru.

Lansiwyd **Rhaglen Datblygu Proffesiynol** newydd i **Awduron o Liw**, er mwyn helpu awduron o liw i gyflawni eu huchelgeisiau hirdymor yn eu gyrfaoedd a'u gwaith ysgrifennu.

## Ffigurau o Bwys yn 2019/2020

Gwelodd **31,562** o bobl ein deunyddiau ar-lein am ddatblygu awduron

Cymerodd **2,495** o bobl ran yn ein sesiynau hyfforddiant proffesiynol

Cynigiwyd **293** o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron

Cafodd **140** o awduron ifanc gefnogaeth barhaus

Darparwyd **47** o gysiau hyfforddiant proffesiynol, a'r rheini yng ngofal dros **60** o awduron

"Braint o'r mwyaf oedd derbyn y wobr yma. Mae eisoes wedi agor drysau at gyfleoedd anhygoel i mi, ac mae'r criw hyfryd draw yn Firefly Press yn cyhoeddi fy nghasgliad cyntaf, *Daydreams and Jellybeans*, yn y flwyddyn newydd. Mae'n gyfnod arbennig, ac mae gwybod y bydd y cerddi hyn nawr yn teithio ymhellach, i chwilio am feddyliau chwilfrydig – mae'n fy ysbrydoli i fwrw ati, a pharhau i ysgrifennu a datblygu."

Alex Wharton  
Bardd Rising Stars Cymru



# Diwylliant Llenyddol Cymru

Dathlu ein hawduron cyfoes a'n treftadaeth lenyddol amrywiol

Mae gwerth economaidd a chymdeithasol anferth i ddiwylliant Cymru, ac mae'n ein galluogi i roi Cymru ar lwyfan y byd. Yn ôl data Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Visit Britain, mae atyniadau diwylliannol a threftadol yng Nghymru yn denu 10 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cyfrannu dros £1 biliwn o Werth Ychwanegol Gros i'r economi.

Rydyn ni'n dathlu diwylliant llenyddol cyfoethog Cymru ac yn awyddus i greu rhai newydd i genedlaethau'r dyfodol. Rydyn ni wedi sefydlu partneriaethau rhyngwladol newydd i roi llwyfannau i lais Cymru yn Gymraeg a Saesneg, ac rydyn ni hefyd yn manteisio ar rym y sianeli digidol i gysylltu ag ystod ehangach o awduron a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

## Ein Strategaeth

Rydyn ni'n cryfhau cwrpas, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru oherwydd rydyn ni'n gwybod bod hyn:

- Yn cefnogi prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n dathlu pa mor unigryw yw ieithoedd, llenyddiaethau a diwylliannau Cymru
- Yn hwyluso comisiynau llenyddol, yn enwedig gan sefydliadau sy'n gweithio y tu allan i'r sector llenyddol
- Yn rhoi rhagor o gyfleoedd a chydabyddiaeth i unigolion sy'n cael eu tangynrychioli

Mae hyn yn dathlu ein hawduron cyfoes ar eu gorau, ac yn fodd o ddangos ein treftadaeth lenyddol amrywiol i'r byd.

## Uchafbwyntiau 2019/2020

Dathlwyd **Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO 2019** a chydweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda phartneriaid yn yr Alban ac Iwerddon i roi llwyfan i'n hieithoedd byw gerbron cynulleidfa fyd-eang.

Bu Ifor ap Glyn, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, yn cynrychioli ein cenedl mewn sawl rhan o'r byd, gan gynnwys yn Lithwania, Tsieina, Camerŵn, yr Almaen a Gwlad Belg.

Cynhaliwyd seremoni **Llyfr y Flwyddyn** yn Aberystwyth, gydag Ailbhe Darcy a Manon Steffan Ros yn cipio'r prif wobrau.

Cynhaliwyd dathliadau **Diwrnod Llyfr y Byd** ledled Cymru, gyda **Bardd Plant Cymru** a'r **Children's Laureate Wales** yn cyflwyno gweithdai creadigol i gannoedd o blant ysgol.

Parhawyd â'r gwaith o hyrwyddo a datblygu gwefan **Gwlad y Chwedlau** gyda'n partneriaid, Croeso Cymru, er mwyn rhannu peth o'n treftadaeth ddiwylliannol â'r byd.

## Ffigurau o Bwys yn 2019/2020

Derbyniwyd **45,000** o ymwelwyr bob blwyddyn i wefan Gwlad y Chwedlau, o dros **100** o wledydd

Bu **250** o awduron profiadol a **244** gwaith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel

Rhoddwyd llwyfan i **54** o egin awduron

Dyfarwyd **43** o gomisiynau i awduron a hwyluswyd gennym ni

Cefnogwyd **21** o bartneriaethau rhyngwladol a phrosiectau cyfnewid

"Rydyn ni'n wlad lle mae geiriau a thelynegaeth yn mynd law yn llaw ac mae rôl Bardd Cenedlaethol Cymru yn dyst i'r pwys rydyn ni'n ei roi ar iaith. Boed ar y dudalen neu ar y llwyfan, bu Ifor ap Glyn yn ein gwefreiddio a'n hysbrydoli drwy ei rôl, ond hefyd yn ymateb i'r byd o'n cwrpas a'i adlewyrchu, gan ein helpu i wneud synnwyr ohono."

**Mark Drakeford**  
Prif Weinidog Cymru



# Ein Huchelgeisiau

Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth

Mae llenyddiaeth yn fwy o lawer na llythrennedd yn unig. Mae ein straeon a'n barddoniaeth yn ein helpu i gydnabod a gweld ein cymdeithas, i gysylltu â'n gilydd, ac i wneud pen a chynffon o'n byd.

Mae ein huchelgeisiau yn canolbwyntio ar wella lles ein dinasyddion drwy ymwneud â geiriau a straeon, gan feithrin lleisiau'r dyfodol drwy ddatblygiad proffesiynol a sicrhau a dathlu gwaddol awduron y gorffennol ac awduron cyfoes.

Yn ein cartref ysbrydol, **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**, y byddwn ni'n creu'r dyfodol. Mae hen gartref David Lloyd George yn eicon diwylliannol yng


“Tŷ Newydd yw un o gyfrinachau gorau Cymru. Mae'r tŷ yn llawn cymeriad, mae'n labrith o gilfachau creadigol ac yn gartref i'r llyfrgell orau erioed. Mae'n teimlo fel adref. Mae'r bwyd cartref yn fendigedig a'r staff mor groesawgar. Os ydych chi'n chwilio am yr awen, cewch hyd iddi yn Nhŷ Newydd: mewn gweithdy, wrth eistedd ar gadair fawr yr ardd neu wrth gerdded hyd lannau Afon Dwyfor.”

**Patience Agbabi**  
Awdur

Nghymru, ond nid ar y gorffennol y mae'i olygon. Dyma lle mae'r genhedlaeth nesaf o leisiau yng Nghymru'n dod i fireinio'u sgiliau, a hynny mewn man sy'n ysbrydoli ac yn hwb i'r broses greadigol.

Bob blwyddyn bydd dros **400** o bobl yn cymryd rhan yn ein rhaglen hyfforddiant a datblygu i awduron yn Nhŷ Newydd, ac mae'r ganolfan yn denu egin awduron, awduron profiadol a thiworiaid o bob cwr o'r byd i Lanystumdwy. Mae'n canolfan ysgrifennu genedlaethol yn hebrwng Cymru at y byd, ac yn hebrwng y byd i Gymru.

Yn Nhŷ Newydd y byddwn ni'n myfyrio am ein hanes er mwyn creu ein dyfodol.



# Y Dyfodol

## Dysgu, adlewyrchu a chrosawu newid

Llenyddiaeth yw un o'r mathau hynaf o gelfyddyd sydd gennym, ond mae'n dal i ysbrydoli ac yn fodd o greu ffurfiau a bydysawdau di-ben-draw.

Rydyn ni'n gwybod bod y gwaith a wnawn yn Llenyddiaeth Cymru – a hwnnw wedi'i gyd-greu a'i ddarparu mewn partneriaeth ag awduron a chymunedau – yn helpu i wneud Cymru a'r byd yn lle gwell.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i gymryd rhan mewn llenyddiaeth ac i fod yn creadigol. Bydd y genhedlaeth nesaf yn llywio ein dyfodol er gwell, ac rydyn ni'n rhoi'r adnoddau a'r gallu iddyn nhw wneud hynny.

Mae gan bob un ohonom ein straeon i'w hadrodd, ac rydym oll yn rhannu'r angen greddfol hwnnw i wrando ar ac i ddysgu oddi wrth ein gilydd. Mae angen inni fod yn garedicach a dangos mwy o empathi at unigolion a chymunedau o'n hamgylch. Mae llenyddiaeth yn ein helpu ni i wneud hyn. Allwn ni ddim dychmygu ein byd hebdo.


“Creu gobaith i'r dyfodol' yw'r geiriau sy'n agor yr adroddiad hwn. Tri gair o ddyfyniad sy'n dechrau drwy sôn am yr angen i fod yn 'wirioneddol radical'. Geiriau Raymond Williams ydyn nhw, a bydd 2021 yn ganmlwyddiant ei eni. Mae'n gwbl addas felly ein bod i gyd, fel llenorion a darllenwyr Cymru a'r byd, yn cael ein hannog i ystyried y gwreiddiau wrth edrych i'r dyfodol a'n harfogi i feithrin y canghennau all flaguro â gobaith, er mwyn i'r gobaith hwnnw droi'r hen fyd hwn yn ardd newydd, gwell.”

**Yr Athro Mererid Hopwood**  
Prifardd, Prif Lenor ac Academydd

## Ein haddewid ni

Fel y cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru, byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- Defnyddio **cyfranogi** mewn llenyddiaeth fel modd o wella **iechyd a lles** cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Darparu cyfleoedd **datblygu i awduron** ym mhob cam yn eu gyrfa, gan bennu pwyslais y cyfleoedd hynny, eu hariannu a'u meithrin
- Dathlu gweithiau llenyddol a gwaddol awduron y gorffennol, awduron heddiw, ac awduron y dyfodol yng Nghymru
- Blaenoriaethu camau sydd yn mynd i'r afael â **thangynrychiolaeth** ac **anghydraddoldeb** yn y sector
- Annog **plant a phobl ifanc** i arbrofi â llenyddiaeth fel modd o feithrin darllen a sgwennu er pleser





# Diolchiadau

## Ein Cyfarwyddwyr

Kate North (Cadair)  
Elizabeth George (Dirprwy Gadair)  
Annie Finlayson  
Cathryn Charnell-White  
Cathryn Summerhayes  
Christina Thatcher  
Craig Austin  
Delyth Roberts  
Eric Ngalle Charles  
Jacob Dafydd Ellis  
John O'Shea  
Natalie Jerome  
Owain Taylor-Shaw  
Radhika Mohanram

## Prif Weithredwr

Lleucu Siencyn

## Noddwr

Philip Pullman

## Gyda diolch i:

Cyngor Celfyddydau Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Ein Ffrindiau Beirniadol  
Ein partneriaid  
Ctrl Alt Design  
Aled Wyn Thomas  
Awduron a chynulleidfaoedd Cymru

029 2047 2266

[post@llynyddiaethcymru.org](mailto:post@llynyddiaethcymru.org)

[www.llynyddiaethcymru.org](http://www.llynyddiaethcymru.org)

@LlenCymru